OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1148 (Cy.103)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 31 Mawrth 2010

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 162(5A) a 181(2) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**1**).

Mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo(**2**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Cymru) 2010 a daw i rym ar y pymthegfed diwrnod ar hugain ar ôl y diwrnod y cafodd ei wneud.

Diwygio Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

2. Yn adran 24(1) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008(**3**) yn y diffiniad o "awdurdod lleol" yn lle "awdurdod addysg lleol" rhodder "awdurdod lleol".

Diwygio Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

3.—(1) Diwygir Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle "awdurdod addysg lleol" ym mhob man y gwelir y geiriau hynny rhodder "awdurdod lleol" ac yn lle "local education authority" ym mhob man y gwelir y geiriau hynny (gan gynnwys yn y darpariaethau newydd a fewnosodir yn Neddf Dysgu a Medrau 2000) rhodder "local authority".

(3) Yn adran 44 yn y man priodol rhodder—

(**1**) 2006 p.40. Mewnosodwyd adran 162(5A) a diwygiwyd adran 181(2) gan adran 23 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2), a diwygiwyd adran 162(5A) gan baragraff 11 o'r Atodlen i Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5) a chan baragraff 20 o Atodlen 1 i Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1).
(**2**) Yn unol ag adran 182A(1) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006.
(**3**) 2008 mccc 2.
(**4**) 2009 mccc 1.